OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 Rhif 144 (Cy. 31)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"),

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi'r uchafswm y mae sefydliad a chanddo gynllun ffioedd a mynediad yn gallu ei godi drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd llawnamser. Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn rhagnodi uchafsymiau is mewn cysylltiad â chyrsiau penodol.

Mae Rheoliadau 3 i 6 yn diwygio Rheoliadau 2015 i gynyddu pob uchafswm rhagnodedig mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

Mae Rheoliadau 2017 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018.

# 2024 No. 144 (W. 31)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Student Finance) (Fee Limit and Loan Amounts) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend—

(a) the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations"),

(b) the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017 ("the 2017 Regulations"), and

(c) the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 ("the 2018 Regulations").

The 2015 Regulations prescribe the maximum amount that an institution with a fee and access plan is able to charge by way of tuition fees for full-time undergraduate courses. The 2015 Regulations also prescribe lower maximum amounts in respect of certain courses.

Regulations 3 to 6 amend the 2015 Regulations to increase each prescribed maximum amount in respect of academic years beginning on or after 1 August 2024.

The 2017 Regulations provide for financial support for eligible students taking designated higher education courses which begin before 1 August 2018.

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae rheoliad 7 yn gwneud cywiriadau i Reoliadau 2017.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau 2018 i gynyddu uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael i gategorïau penodol o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau gyda darparwyr arferol yng Nghymru mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024. Mae'r cynnydd yn y cymorth yn cyfateb i'r cynnydd yn uchafswm rhagnodedig y ffioedd o dan Reoliadau 2015, o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 3 i 6.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The 2018 Regulations provide for financial support for eligible students taking designated higher education courses which begin on or after 1 August 2018.

Regulation 7 makes corrections to the 2017 Regulations.

Regulation 8 amends the 2018 Regulations to increase the maximum amount of tuition fee loan available to certain categories of students undertaking courses at ordinary providers in Wales in respect of academic years beginning on or after 1 August 2024. The increase in support corresponds to the increase in the prescribed maximum amount of fee under the 2015 Regulations, as a result of the amendments made by regulations 3 to 6.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 144 (Cy. 31)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Chwefror 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *15 Chwefror 2024* |
| *Yn dod i rym* | *8 Mawrth 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a), (b) a (d) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(3) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**3**).

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1) a (2)(b) a (d) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 hefyd fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. 144 (W. 31)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Student Finance) (Fee Limit and Loan Amounts) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 February 2024* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *15 February 2024* |
| *Coming into force* | *8 March 2024* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22(1)(a), 22(2)(a), (b) and (d) and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**), and now exercisable by them(**2**), and powers conferred on them under sections 5(3) and 55(2) of the Higher Education (Wales) Act 2015(**3**).

(**1**) 1998 c. 30; section 22(1) was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146. *See* section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(**2**) The functions of the Secretary of State in section 22(1) and (2)(b) and (d) of the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales, so far as they relate to making provision in relation to Wales, by section 44 of the Higher Education Act 2004 (c. 8). Section 44 of the Higher Education Act 2004 also provided that the functions in section 22(2)(a) of the Teaching and Higher Education Act 1998 were to be exercised by the National Assembly for Wales concurrently with the Secretary of State, so far as they relate to making provision in relation to Wales. The Secretary of State's function in section 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998, in so far as being exercisable in relation to Wales, was transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, article 2 and Schedule 1 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) 2015 anaw 1. *See* section 57(1) for the definitions of "prescribed" and "regulations".

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Mawrth 2024.

**Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 6.

**3.** Yn lle rheoliad 3 (ond nid y pennawd o'i flaen) rhodder—

"**3.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 4, 5 a 6, mae Colofn 2 o Dabl 1 yn pennu'r uchafswm rhagnodedig at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

**Tabl 1**

| *Colofn 1*<br>*Y flwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Yr uchafswm rhagnodedig* |
|---|---|
| Sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024 | £9,000 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024 | £9,250" |

**4.** Yn lle rheoliad 4 (ond nid y pennawd o'i flaen) rhodder—

"**4.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) blwyddyn academaidd derfynol cwrs pan fo'n ofynnol i'r flwyddyn academaidd honno fel rheol gael ei chwblhau ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb;

(b) cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon (gan gynnwys cwrs o'r fath sy'n arwain at radd gyntaf), y mae swm cyfanredol unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser mewn blwyddyn academaidd yn ystod y cwrs hwnnw yn llai na 10 wythnos.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae Colofn 2 o Dabl 2 yn pennu'r uchafswm rhagnodedig at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

(**1**) O.S. 2015/1496 (Cy. 168).

**Title and coming into force**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Finance) (Fee Limit and Loan Amounts) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 8 March 2024.

**Amendments to the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015**

**2.** The Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015(**1**) are amended in accordance with regulations 3 to 6.

**3.** For regulation 3 (but not the heading before it) substitute—

"**3.** Subject to regulations 4, 5 and 6, Column 2 of Table 1 specifies the prescribed maximum amount for the purposes of section 5(3) of the 2015 Act in respect of an academic year in the corresponding entry in Column 1.

**Table 1**

| *Column 1*<br>*Academic year* | *Column 2*<br>*Prescribed maximum amount* |
|---|---|
| Beginning before 1 August 2024 | £9,000 |
| Beginning on or after 1 August 2024 | £9,250" |

**4.** For regulation 4 (but not the heading before it) substitute—

"**4.**—(1) This regulation applies in respect of—

(a) the final academic year of a course where that academic year is normally required to be completed after less than 15 weeks' attendance;

(b) a course of initial training of teachers (including such a course leading to a first degree), an academic year during which any periods of full-time study are in aggregate less than 10 weeks.

(2) Where this regulation applies, Column 2 of Table 2 specifies the prescribed maximum amount for the purposes of section 5(3) of the 2015 Act in respect of an academic year in the corresponding entry in Column 1.

(**1**) S.I. 2015/1496 (W. 168).

**Tabl 2**

| *Colofn 1*<br>*Y flwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Yr uchafswm rhagnodedig* |
|---|---|
| Sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024 | £4,500 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024 | £4,625" |

**5.** Yn lle rheoliad 5 (ond nid y pennawd o'i flaen) rhodder—

"**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs rhyngosod—

(a) pryd y mae swm cyfanredol unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos, neu

(b) os yw swm cyfanredol unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, yn fwy na 30 o wythnosau.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae Colofn 2 o Dabl 3 yn pennu'r uchafswm rhagnodedig at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

**Tabl 3**

| *Colofn 1*<br>*Y flwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Yr uchafswm rhagnodedig* |
|---|---|
| Sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024 | £1,800 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024 | £1,850" |

**6.** Yn lle rheoliad 6 (ond nid y pennawd o'i flaen) rhodder—

"**6.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor—

(a) pryd y mae swm cyfanredol unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn llai na 10 wythnos, neu

**Table 2**

| *Column 1*<br>*Academic year* | *Column 2*<br>*Prescribed maximum amount* |
|---|---|
| Beginning before 1 August 2024 | £4,500 |
| Beginning on or after 1 August 2024 | £4,625" |

**5.** For regulation 5 (but not the heading before it) substitute—

"**5.**—(1) This regulation applies in respect of an academic year of a sandwich course—

(a) during which any periods of full-time study are in aggregate less than 10 weeks, or

(b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full-time study at the institution (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

(2) Where this regulation applies, Column 2 of Table 3 specifies the prescribed maximum amount for the purposes of section 5(3) of the 2015 Act in respect of an academic year in the corresponding entry in Column 1.

**Table 3**

| *Column 1*<br>*Academic year* | *Column 2*<br>*Prescribed maximum amount* |
|---|---|
| Beginning before 1 August 2024 | £1,800 |
| Beginning on or after 1 August 2024 | £1,850" |

**6.** For regulation 6 (but not the heading before it) substitute—

"**6.**—(1) This regulation applies in respect of an academic year of a course provided in conjunction with an overseas institution—

(a) during which any periods of full-time study at the institution in the United Kingdom are in aggregate less than 10 weeks, or

(b) os yw swm cyfanredol unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, yn fwy na 30 o wythnosau.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae Colofn 2 o Dabl 4 yn pennu'r uchafswm rhagnodedig at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

**Tabl 4**

| *Colofn 1*<br>*Y flwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Yr uchafswm rhagnodedig* |
|---|---|
| Sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024 | £1,350 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024 | £1,385" |

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017**

**7.** Ym mhob un o reoliadau 16(1), 19(1) ac 20(1) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**), ar ôl "rheoliad 5(1)(e)" mewnosoder "neu (ea)".

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018**

**8.** Yn rheoliad 40 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**2**), yn Nhabl 2—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018" yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2024";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnodion a ganlyn yn y Tabl—

(b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full-time study at the institution in the United Kingdom (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

(2) Where this regulation applies, Column 2 of Table 4 specifies the prescribed maximum amount for the purposes of section 5(3) of the 2015 Act in respect of an academic year in the corresponding entry in Column 1.

**Table 4**

| *Column 1*<br>*Academic year* | *Column 2*<br>*Prescribed maximum amount* |
|---|---|
| Beginning before 1 August 2024 | £1,350 |
| Beginning on or after 1 August 2024 | £1,385" |

**Amendments to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017**

**7.** In each of regulations 16(1), 19(1) and 20(1) of the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017(**1**), at the end insert "or (ea)".

**Amendments to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018**

**8.** In regulation 40 of the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018(**2**), in Table 2—

(a) in Column 1, after "Beginning on or after 1 September 2018" in both places it occurs, insert "but before 1 September 2024";

(b) at the end of the Table, insert the following table entries—

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54) ac O.S. 2020/153 (Cy. 27).

(**1**) S.I. 2017/47 (W. 21), to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(**2**) S.I. 2018/191 (W. 42); relevant amendments are S.I. 2018/814 (W. 165); S.I. 2019/235 (W. 54) and S.I. 2020/153 (W. 27).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | 1 | Darparwr arferol | Cymru | £9,250: cwrs llawnamser<br>£2,625: cwrs rhan-amser |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £9,250: cwrs llawnamser<br>£6,935: cwrs rhan-amser |
| | | Sefydliad preifat | Cymru | £6,165: cwrs llawnamser<br>£2,625: cwrs rhan-amser |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £6,165: cwrs llawnamser<br>£4,625: cwrs rhan-amser |
| | 2 | Darparwr arferol | Cymru | £4,625 |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £4,625 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a mannau eraill yn y DU | £3,080 |
| | 3 | Darparwr arferol | Cymru | £1,850 |
| | | | Lloegr | £1,850 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £4,625 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a Lloegr | £1,230 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £3,080 |
| | 4 | Darparwr arferol | Cymru | £1,385 |
| | | | Lloegr | £1,385 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £4,625 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a Lloegr | £920 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £3,080 |
| | 5 | Darparwr arferol | Cymru a mannau eraill yn y DU | £5,785 |
| | 6 | Darparwr arferol | Cymru | £1,385 |
| | | | Lloegr a’r Alban | £1,385” |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| “Beginning on or after 1 September 2024 | 1 | Ordinary provider | Wales | £9,250 for a full-time course<br>£2,625 for a part-time course |
| | | | Elsewhere in UK | £9,250 for a full-time course<br>£6,935 for a part-time course |
| | | Private institution | Wales | £6,165 for a full-time course<br>£2,625 for a part-time course |
| | | | Elsewhere in UK | £6,165 for a full-time course<br>£4,625 for a part-time course |
| | 2 | Ordinary provider | Wales | £4,625 |
| | | | Elsewhere in UK | £4,625 |
| | | Private institution | Wales and elsewhere in UK | £3,080 |
| | 3 | Ordinary provider | Wales | £1,850 |
| | | | England | £1,850 |
| | | | Scotland and Northern Ireland | £4,625 |
| | | Private institution | Wales and England | £1,230 |
| | | | Scotland and Northern Ireland | £3,080 |
| | 4 | Ordinary provider | Wales | £1,385 |
| | | | England | £1,385 |
| | | | Scotland and Northern Ireland | £4,625 |
| | | Private institution | Wales and England | £920 |
| | | | Scotland and Northern Ireland | £3,080 |
| | 5 | Ordinary provider | Wales and elsewhere in UK | £5,785 |
| | 6 | Ordinary provider | Wales | £1,385 |
| | | | England and Scotland | £1,385” |

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
13 Chwefror 2024

Minister for Education and Welsh language, one of the Welsh Ministers
13 February 2024

©ⓗHawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

£8.14



ISBN 978-0-348-39539-6